**Gwybodaeth i Gleifion**

# Rotafirws Gastroenteritis

**Y Tîm Atal Heintiau**

---

**Beth yw Rotafirws?**
Haint firol yw Rotafirws a all achosi gastro-enteritis. Mae'n haint sydd fel arfer yn achosi dolur rhydd a chwydu a bydd yn effeithio ar blant rhwng chwe mis a dwy flwydd oed fel rheol. Rotafirws yw'r firws mwyaf cyffredin sy'n achosi gastroenteritis ymysg plant yn y DU, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu heintio â rotafirws erbyn iddynt droi yn bump oed.

**Sut y cewch eich heintio â Rotafirws?**
Mae rotafirws yn bresennol ym mherfedd (coluddion) y bobl sydd wedi eu heintio a gall gael ei ysgarthu yn eu dolur rhydd. Gallwch gael eich heintio drwy gyswllt agos â nhw a drwy gyffwrdd ag arwynebeddau neu wrthrychau wedi eu heintio. Mae hyn yn digwydd yn aml oherwydd bod y firws yn bresennol ar ddwylo pobl sydd wedi eu heintio ar ôl iddynt ddefnyddio'r toiled.

Yn achos plant sy'n gwisgo cewynnau, gall gael ei ledaenu drwy ddwylo'r person sy'n newid y cewyn wedi ei heintio. Gall y firws gael ei ledaenu hefyd os yw'r person sydd wedi ei heintio yn paratoi bwyd.

**Beth yw symptomau Rotafirws a pha mor hir fydd yn para?**
Y symptomau cyntaf yw twymyn a chwydu fel arfer. Bydd dolur rhydd dyfrllyd yn dilyn. Gall y dolur rhydd amrywio rhwng ysgafn a difrifol iawn, a gall ddod i ben ymhen tridiau ond weithiau bydd yn bosib iddo bara am hyd at naw diwrnod. Gall rhai plant ddioddef poen annymunol yn y stumog hefyd.

Mae peryg o golli gormod o ddŵr (dadhydradu) oherwydd amlder y dolur rhydd a'r chwydu fydd gan eich plentyn. Dadhydradu yw pan nad oes digon o hylif yn y corff. Mae dadhydradu ysgafn yn gyffredin a bydd yn gwella'n hawdd ac yn gyflym fel arfer drwy yfed llawer o ddiodydd.

Mae dadhydradu difrifol yn gyflwr sydd angen triniaeth frys gan fod angen cyfaint penodol o hylif ar gyfer gwaith arferol organau'r corff.

**Sut rhoddir diagnosis Rotafirws?**
Bydd y Rotafirws fel arfer yn cael ei ganfod drwy anfon sampl o ysgarthion y plentyn i'r labordy ar gyfer profion.

**Sut mae trin Rotafirws?**
Nid oes meddyginiaeth benodol i drin rotafirws. Y nod yw sicrhau bod eich plentyn yn cymryd digon o hylifau i'w hatal rhag dadhydradu. Os yw eich plentyn wedi ei

ddadhydradu’n ddifrifol efallai bydd angen rhoi hylif iddo/iddi yn fewnwythiennol (bydd hyn yn digwydd fel arfer drwy nodwydd wedi'i roi mewn gwythïen). Os yw eich plentyn wedi ei ddadhydradu ychydig, gellir trin hyn drwy roi diodydd hydradu iddo/iddi.

Gwella unrhyw ddadhydradu yw’r flaenoriaeth gyntaf. Os nad yw eich plentyn wedi colli gormod o hylifau, neu ar ôl gwella unrhyw fath o ddadhydradu, dylech annog eich plentyn i gynnal deiet arferol. Dylech barhau i fwydo’r babanod o'r fron os byddant yn hapus ei wneud. Dylai babanod sy'n cael eu bwydo â photel gael eu bwydo gyda chryfder arferol eu bwyd. Yn y ddau achos, bydd hyn yn ategu’r diodydd ailhydradu.

**A oes unrhyw effeithiau negyddol hirdymor?**

Nid yw’n arferol cael cymhlethdodau o rotafirws. Os bydd y symptomau yn parhau neu os nad yw arferion y coluddyn yn dychwelyd i’r arfer yn y tymor hir, cysylltwch â’ch meddyg teulu.

**Sut mae atal Rotafirws rhag lledaenu i eraill?**

Y peth hanfodol yw cynnal hylendid dwylo da. Os oes gan eich plentyn haint rotafirws, bydd angen i chi olchi eich dwylo cyn ac ar ôl newid y cewynnau a pharatoi, gweini a bwyta bwyd. Golchwch eich dwylo’n drwyadl ac yn aml gyda sebon a dŵr cynnes rhedeg. Dylech annog eich plentyn i olchi ei ddwylo ar ôl defnyddio’r toiled.

Pan fyddwch yn yr ysbyty, caiff eich plentyn ei arwahanu mewn ciwbicl nes bydd y symptomau’n diflannu. Bydd angen i’ch plentyn aros yn y ciwbicl tan na fydd symptomau ganddo/ganddi mwyach. Bydd y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd oll yn gwisgo menig a ffedogau pan fyddant mewn cyswllt â’ch plentyn, nes y bydd heb symptomau.

**Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gofynnwch i’r staff nyrsio gysylltu ag un o’r nyrsys Atal Haint. Fel arall, ffoniwch un o’r rhifau ffôn cyswllt isod.


**Y Tîm Atal Heintiau**

**Ysbyty Brenhinol Gwent: 01633 - 238101**

**Ysbyty Nevill Hall: 01873 732048 neu 732613**

**gan gynnwys yn y Gymuned,**
**Ysbyty Ystrad Fawr ac**
**Ysbyty Aneurin Bevan 07903 324603**


**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English”.**